

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 7fed o Dachwedd 2022 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Alma.

Cynghorwyr yn bresennol: John Phillips (Cadeirydd), Arwyn Jones, Dyfed Davies, Ann Sillars, Eirian Howells, Andreeuw Jones, Linda Davies, Derrick Harries, Ambrose Lewis, Alyson Harries & Cynghorydd Sir Jean Lewis.

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Dim
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Diolchodd John Phillips i bawb am fynychu'r cyfarfod ar noson mor stormus a chroesawodd Ambrose Lewis yn dilyn llawdriniaeth dweddar.
3. **Datgan Buddiannau:**
Ni nodwyd unrhyw datgan budd.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 5ed o Fedi 2022 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.
5. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
 - Mesurau Tawelu Traffig yn Trelech – roedd 'cownteri' cyflymder traffig wedi cael eu gosod yn y pentref ond nid oedd y canlyniadau wedi cael eu prosesu hyd yn hyn.
 - Pont Penybont – roedd ardan Priffyrdd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cadarnhau fod y gwaith yn y broses cynllunio ar hyn o bryd. Yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad mi fyddai'r gwaith yn cael ei wneud ac roeddent yn bwriadu gwneud y gwaith yn y flwyddyn ariannol yma.

6. Gohebiaeth

- a. Er fod y clerc wedi cysylltu gyda Archwilwyr Cymru yn gofyn am ddiweddariad, nid oedd dim wedi dod i law.
- b. Roedd y clerc wedi ebostio manylion heolydd ar gau i'r Cynghorwyr wrth eu derbyn.
- c. Roedd pryderon wedi cael ei codi ynghlyn a chyflwr y llwybr i lawr i Clunfelyn o fynedfa'r ysgol hyd y fynwent. Cytunwyd byddai detholiad o Gynghorwyr yn gwneud ymweliad safle ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.
- Ch. Nododd y Cynghorydd Sir ei bod wedi derbyn pryderon am gyflwr yr heol o Ffynnonlwyd hyd y groesffordd a draw tuag at Waun Uchaf yn Trelech. Mi'r oedd wedi cael ymweliad safle gyda Swyddog o'r adran Priffyrdd I drafod y pryderon. Roeddent hefyd wedi ymaweld a Pont Rhyd Ddofn, Trelech yn dilyn pryder am ymsiddiant. Byddai Peirianwyr Strwythurol Pontydd y Cyngor yn ymweld.
- d. Roedd y clerc wedi cwblhau hyfforddiant ar Fioamrywiaeth a ddarparwyd gan Un Llais Cymru.
- dd. Roedd y clerc ac Andrew Jones wedi cwblhau yr hyfforddiant ar lein ynghlyn â Llywodraethant Ariannol.

7.Cyllid - Cyfrif Busnes Cyfredol £841.82

8. Unrhyw Fater Arall

8.1) Cadarnhaodd y clerc fod gwefan y Cyngor wedi cael ei ddiweddarau a'i ddiwigio rhywfaint ermwyn sicrhau lle i ddeunydd newydd.

8.2) Roedd y Clerc wedi diweddarau nifer o polisiau ac wedi eu danfon ymlaen I'r Cynghorwyr drwy ebost cyn y cyfarfod. Cytunwyd i dderbyn y polisiau canlynol:

- Cynllun Cyhoeddu Rhyddid Gwybodaeth
- Polisi Iechyd diogelwch
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol a Chyhoeddu
- Cynllun Hyfforddiant
- Polisi Gwybodaeth Data
- Polisi Cadw Dogfennau
- Asesiad Risg
- Rheolau Cyllidol
- Rheolau Statudol

8.3) Dosbarthwyd copi o Gwariant yn erbyn Cyllideb o Ebrill i Hydref i'r Cynghorwyr. Trafodywd yr adroddiad ac fe'i dderbyniwyd.

8.4) Adolygiad Staff – Argymhellwyd i'r clercc ddanfôn holidaur i'r Cynghorwyr ar gyfer ei gwblhau.

8.5) Hyfforddiant – Cytunodd Ann Sillars i gwblhau hyfforddiant ar Cynhwysiad ac Arywiaeth a Linda Davies ar Deall y Gyfraith.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb am fynychu a chaewyd y cyfarfod am 9.05yh.